| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| DYDDIAD | **25 Mai 2023** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23, a**<br>• **Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad** |
| GWEITHREDIAD | **Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon** |
| AWDUR | **Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, Cyngor Gwynedd** |

---

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ar gyfer cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar gyllid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn). Gan bod y trefniadau ar y cyd gyda Cyngor Môn wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023, nid yw'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cyfarfod ar ôl y dyddiad yma, ac felly, mae'r set olaf o gyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

## 2. CYFRIFON 2022/23

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2022/23 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2022/23 wedi’i gwblhau a’i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Bydd y cyfrifon a’r ffurflen yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Rhagfyr 2023.

2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau**, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023 – Atodiad B